



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**

**CYNGOR YMGYNGHOROL  
SEFYDLOG AR ADDYSG  
GREFYDDOL (CYSAG)**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**

---

**2021-2022**

## NEGES GAN AELODAU CYSAG CAERFFILI

Mae blwyddyn academaidd 2021-2022 wedi parhau i fod yn gyfnod digynsail i bobl oherwydd effaith pandemig Covid-19. Mae aelodau CYSAG yn meddwl am bawb sydd wedi'u heffeithio arnyn nhw gan y feirws, gan gynnwys y rhai sydd wedi mynd yn sâl a'r sawl a gollodd anwyliaid. Hoffai'r aelodau hefyd fynegi eu diolchgarwch i bawb yn y sector addysg am y gwaith rhagorol rydych chi'n ei wneud yn darparu gofal, cymorth ac addysg i blant ac i bobl ifanc yng Nghymru er gwaethaf yr heriau lu a'r ansicrwydd a achoswyd gan y pandemig.

Bydd ymarferwyr yn ymwybodol fod Addysg Grefyddol yng Nghymru, fel rhan o'r Cwricwlwm newydd i Gymru, wedi cael enw newydd a bydd yn cael ei alw'n Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fis Medi 2022 ymlaen. Arweiniodd hyn hefyd at newid enw CYSAGau ledled Cymru, a bellach Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg fydd eu henw o fis Medi 2022 ymlaen.

Hoffai'r aelodau atgoffa ymarferwyr sy'n ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg fod Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Caerffili ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yma i'ch cynorthwyo chi gyda chyngor ar addysgu, ar ddysgu ac ar adnoddau ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, yn ogystal â chyngor ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Atgoffir pob ysgol o'r canllawiau a'r adnoddau sydd i'w cael ym Maes Llafur Cytunedig newydd Caerffili ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Lleol ym mis Mehefin 2022 ac a gafodd ei anfon at ysgolion cyn ei roi ar waith ym mis Medi 2022.

At hyn, mae cymorth gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog Caerffili ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg hefyd ar gael ar gyfer y Weithred Ddyddiol o Addoli ar y Cyd.

Mae Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Caerffili ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn croesawu gohebiaeth drwy'r cysylltiadau isod

Julie Lloyd, Clerc i CYSAG Caerffili  
[LloydJ4@caerffili.gov.uk](mailto:LloydJ4@caerffili.gov.uk)

Hayley Jones, Partner Cwricwlwm (Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg) – Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru  
[hayley.jones@sewaleseas.org.uk](mailto:hayley.jones@sewaleseas.org.uk)

**ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG CAERFFILI AR  
ADDYSG GREFYDDOL**

2021- 2022

<b>CYNNWYS</b>	<b>TUDALEN</b>
<b>ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG</b>	<b>3</b>
1.1 Dyletswydd i Sefydlu CYSAG	3
1.2 Cyfansoddiad CYSAG	3
1.3 Aelodaeth CYSAG	3
1.4 Swyddogaethau CYSAG	3
1.5 Cyfarfodydd	4
1.6 Cylchredeg yr Adroddiad	4
<b>CRYNODEB GWEITHREDOL O'R CYNGOR A RODDWDY GAN CYSAG</b>	<b>5</b>
<b>ADRAN 2: CYNGOR AR ADDYSG GREFYDDOL</b>	<b>9</b>
2.1 Y Maes Llafur y cytunwyd arno yn lleol	9
2.2 Safonau mewn Addysg Grefyddol	10
2.3 Dulliau Addysgu, Deunyddiau Addysgu a Hyfforddiant Athrawon	10
<b>ADRAN 3: CYNGOR AR ADDOLI AR Y CYD</b>	<b>13</b>
3.1 Adroddiadau Arolygu Ysgolion	13
3.2 Ceisiadau am Benderfyniadau	13
3.3 Ymweliadau ag Ysgolion	13
<b>ADRAN 4: MATERION ERAILL</b>	<b>14</b>
4.1 Cymdeithas CYSAGau Cymru	14
4.2 Addysg am yr Holocost	14
4.3 Cwricwlwm i Gymru 2022	14
4.4 Ymgynghoriadau Ysgolion yr 21ain Garrif	14
4.5 Hyfforddi Aelodau CYSAG	15
4.6 Aelodaeth CYSAG	15
4.7 Cymorth Proffesiynol i CYSAG Caerffili	15
<b>ATODIAD 1: AELODAETH CYSAG CAERFFILI HYDREF 2021 – HAF 2022</b>	<b>16</b>
<b>ATODIAD 2: AMSERLEN AC AGENDA CYFARFODYDD</b>	<b>17</b>
<b>ATODIAD 3: CYLCHREDEG YR ADRODDIAD</b>	<b>19</b>

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**  
**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG CAERFFILI AR ADDYSG GREFYDDOL**  
**2021- 2022**

**ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG**

**1.1 Dyletswydd i Sefydlu CYSAG**

Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) o fewn eu hardal leol.

**1.2 Cyfansoddiad CYSAG**

Mae'r gynrychiolaeth sydd ei hangen ar CYSAG fel a ganlyn: -

- (i) Y cyfryw enwadau Cristnogol ac enwadau crefyddol a daliadau anghrefyddol athronyddol eraill sydd, ym marn yr Awdurdod Lleol, yn adlewyrchu'n briodol y prif draddodiadau crefyddol yn yr ardal. Ers 2018, ar Gyfarwyddyd Gweinidog Cabinet Addysg Llywodraeth Cymru, gall dyneiddwyr yn ogystal â grwpiau cred eraill sy'n cyfateb i gred grefyddol fod yn aelodau llawn o'r Pwyllgor hwn;
- (ii) Cynrychiolwyr cymdeithasau athrawon;
- (iii) Cynrychiolwyr yr awdurdod lleol.

Penderfynodd yr Awdurdod Lleol y dylai'r CYSAG gynnwys chwe aelod etholedig, saith corff sy'n cynrychioli crefydd a chred a saith cynrychiolydd cymdeithasau athrawon. At hyn, caniatodd yr Awdurdod i ddau unigolyn arall gael eu cyfethol.

**1.3 Aelodaeth CYSAG**

Mae'r rhestr aelodaeth sy'n dangos y sefyllfa fel yr oedd ym Medi 2021 – Awst 2022 ynghlwm yn Atodiad 1.

Mae CYSAG yn parhau i ymdrechu i geisio cynrychiolaeth gan sefydliadau crefyddol ar wahân i Gristnogaeth, ond mae cyfyngiadau Covid-19 a newidiadau i arferion gwaith wedi peri oedi o ran dod o hyd i gynrychiolaeth o'r fath.

O ran Pwyllgor A, gofynnwyd am gyngor gan Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru). O ran Pwyllgor B, mae CYSAG yn y broses o gysylltu ag ysgolion i ofyn am fynegiannau o ddiddordeb ar gyfer y ddau le gwag ar y pwyllgor (ASCL a NEU).

Mae CYSAG Caerffili hefyd wedi neilltuo eu dau le cyfetholedig i gynrychiolwyr ieuentid ac mae gwaith yn mynd rhagddo i lenwi'r lleoedd hyn. Mae CYSAG yn edrych ymlaen at weld pobl ifanc yn ymuno â'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog yn y dyfodol er mwyn ymgorffori llais y dysgwr.

**1.4 Swyddogaethau CYSAG**

- Cynghori'r Awdurdod Lleol ar addoli ac ar yr addysg grefyddol a roddir yn unol â'r maes llafur cytunedig gan gynnwys dulliau addysgu, cyngor ar ddeunyddiau a darparu hyfforddiant i athrawon.
- Ystyried a ddylid argymhell i'r awdurdod lleol y dylid adolygu'r maes llafur cytunedig ar hyn o bryd drwy gynnull Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig.
- Ystyried a ddylid amrywio'r gofyniad y dylai addoli crefyddol mewn ysgol sirol fod o natur sydd yn fras yn 'Gristnogol' (penderfyniadau).

- Cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod Lleol ac i Lywodraeth Cymru ar ei weithgareddau bob blwyddyn.

## **1.5 Cyfarfodydd**

Cyfarfu CYSAG deirgwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022.

25 Tachwedd 2021

28 Mawrth 2022

6 Gorffennaf 2022

Mae CYSAG wedi penderfynu, pan fo'n bosibl, y cynhelir cyfarfodydd mewn lleoliadau amgen fel ysgolion neu addoldai. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau ynghylch pandemig Covid-19 yn 2021/22, nid oedd CYSAG yn gallu cwrdd yn bersonol ac felly cynhaliwyd pob un o dri chyfarfod CYSAG ar-lein drwy ddefnyddio Microsoft Teams.

## **1.6 Cylchredeg yr Adroddiad**

Mae copiâu o'r adroddiad hwn yn cael eu dosbarthu'n electronig i'r sefydliadau a chyrrff hynny a restrir yn Atodiad 3. Mae hefyd ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol ac ar wefan CCYSAGauC.

## **CRYNODEB GWEITHREDOL O'R CYNGOR A RODDWDYD GAN CYSAG**

Crynodeb o'r cyngor a roddwyd i'r awdurdod lleol gan CYSAG

### **ADDYSG GREFYDDOL**

#### **Mater**

Monitro darpariaeth a safonau mewn addysg grefyddol

#### **Cam Gweithredu**

1. Mae CYSAG yn ystyried ac yn dadansoddi adroddiadau arolygu ysgolion. Os oes unrhyw faterion ynghylch addysg grefyddol, megis peidio â chyflawni gofynion statudol, yna bydd yr awdurdod lleol yn gwneud gwaith dilynol arno. Yn ystod 2021-2022, rhoddwyd stop dros dro ar y broses hon a byddwn ni'n edrych arni eto ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023.
2. Fel arfer, mae CYSAG yn ymweld ag ysgolion bob blwyddyn i weld cyflwyniad ar addysg grefyddol yn yr ysgol. Fodd bynnag, oherwydd effaith pandemig Covid-19, ni wnaeth CYSAG ymweld ag unrhyw ysgolion yn ystod 2021-2022.
3. Arfer CYSAG oedd dadansoddi canlyniadau arholiadau dros gyfnod o dair blynedd ac mae'n nodi tueddiadau o ran meincodi perfformiad yn ôl holl ddata Cymru. Er hynny, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rhoddwyd stop dros dro ar y broses hon a byddwn ni'n edrych arni eto ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023.

#### **Mater**

Cyflawni'r gofyniad cyfreithiol i adolygu'r maes llafur cytunedig ar gyfer addysg grefyddol bob pum mlynedd a sicrhau bod ysgolion yn rhoi'r maes llafur cytunedig ar waith mewn ysgolion

#### **Cam Gweithredu**

1. Ym mis Mehefin 2013 cymeradwyodd y Gynhadledd Sefydlog y dylid ail-fabwysiadu Maes Llafur Cytunedig cyfredol Caerffili ar Addysg Grefyddol a fabwysiadwyd yn 2008, gyda dealltwriaeth y byddai'r maes llafur yn cael ei adolygu pan fyddai rhagor o wybodaeth yn dod i law mewn perthynas â'r asesiad ac ag adolygiad y cwricwlwm cenedlaethol.
2. Rhoddwyd y newyddion diweddaraf am ddatblygiadau adolygiad y Cwricwlwm Cenedlaethol ac am ddatblygiad y cwricwlwm Dyniaethau i CYSAG bob tymor. Dywedwyd wrth ysgolion y dylen nhw ddilyn y maes llafur cytunedig presennol hyd nes y clywir yn wahanol.
3. Ym mis Mai 2019, cytunodd y Gynhadledd Sefydlog i fabwysiadu'r Maes Llafur Cytunedig presennol eto hyd nes y rhoddir y cwricwlwm newydd ar waith yn 2022.
4. Ym mis Ionawr 2022, gwnaeth Llywodraeth Cymru ryddhau canllawiau ar fframwaith newydd Cwricwlwm i Gymru a oedd yn caniatáu i awdurdodau lleol ledled Cymru a'u CYSAGau ddechrau paratoi at fabwysiadu Maes Llafur Cytunedig newydd. Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru yn gwneud darpariaeth i awdurdodau lleol fabwysiadu neu addasu'r canllawiau hyn fel eu Maes Llafur Cytunedig.

5. Yng nghyfarfod y Gynhadledd Sefydlog a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2022, cytunodd Aelodau'r Gynhadledd Sefydlog y dylid mabwysiadu Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel sail i'r Maes Llafur Cytunedig newydd ar gyfer yr awdurdod lleol, yn amodol ar gynnwys dogfen ragair ategol a fydd yn berthnasol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, fel yr awdurdod lleol, wrth ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Cytunwyd hefyd y bydd Gweithgor yn cael ei sefydlu ar ôl y cyfarfod er mwyn i Aelodau a Swyddogion gyfrannu at y rhagair a rhoi gwedd derfynol ar y cynnwys, cyn cyflwyno'r Maes Llafur Cytunedig hwn yn derfynol i gyfarfod arall o'r Gynhadledd Sefydlog iddo gael ei gymeradwyo.
6. Cynhaliwyd Gweithgorau'r Gynhadledd Sefydlog, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o CYSAG Caerffili, ym mis Mawrth 2022. Bu cynrychiolwyr y Gweithgor yn trafod ac yn dadansoddi canllawiau Llywodraeth Cymru yn fanwl ar draws y ddwy sesiwn a gwnaethon nhw ddrafftio a mireinio dogfen Maes Llafur Cytunedig ategol sy'n berthnasol i Gaerffili, fel yr awdurdod lleol, ac sy'n nodi'r prif bwyntiau sy'n bwysig yng nghanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Llywodraeth Cymru er mwyn i athrawon ac ymarferwyr roi sylw iddyn nhw wrth baratoi eu cwricwlwm ac wrth gynllunio gwersi. Roedd dogfen ddrafft y Maes Llafur Cytunedig hefyd yn rhoi canllawiau i athrawon ar feysydd allweddol megis cydaddoli a dileu'r hawl i dynnu'n ôl yng Nghwricwlwm Cymru.
7. Ar ôl ei chwblhau, anfonwyd dogfen Maes Llafur Cytunedig drafft Caerffili i bob Aelod o CYSAG er mwyn ymgynghori â nhw a rhoi cyfle iddyn nhw gyflwyno sylwadau neu roi barn derfynol y dylid eu cynnwys yn nogfen Maes Llafur Cytunedig Caerffili cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Gynhadledd Sefydlog.
8. Cyflwynwyd drafft terfynol Maes Llafur Cytunedig Caerffili ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, yn seiliedig ar Ganllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y Cwricwlwm i Gymru, i gyfarfod y Gynhadledd Sefydlog ar 28 Mawrth, 2022. Cafodd ei gadarnhau a'i gymeradwyo fel Maes Llafur Cytunedig Caerffili ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ac argymhellwyd i'r awdurdod lleol ei fabwysiadu a'i roi ar waith o fis Medi 2022 ymlaen.
9. Yn dilyn hynny, mabwysiadodd yr awdurdod lleol y Maes Llafur Cytunedig newydd ym mis Mehefin 2022, ac anfonwyd y ddogfen honno i bob ysgol ym mis Gorffennaf 2022 cyn rhoi'r Cwricwlwm newydd i Gymru ar waith ym mis Medi 2022.

## **DEUNYDDIAU ADDYSGU**

### **Mater**

Sicrhau bod ysgolion yn cael gwybod am adnoddau addas ar gyfer Addysg Grefyddol.

### **Cam Gweithredu**

Anfonwyd yr wybodaeth a'r adnoddau canlynol at ysgolion, ac anfonwyd copi o'r wybodaeth at Aelodau CYSAG hefyd:

1. Cafodd gwybodaeth am thema Diwrnod Cofio'r Holocaust 2022 a'r adnoddau sydd ar gael eu hanfon at bob ysgol. Mae'r rhain i'w gweld ar wefan [HMD www.hmd.org.uk](http://www.hmd.org.uk) ac maen nhw'n cynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, astudiaethau achos, deunydd ar gyfer addoli ar y cyd/gwasanaethau a thafleuni gwaith sy'n addas i ddisgyblion o oedran cynradd i oedran ôl-16.

2. Anfonwyd gwybodaeth am Ysgoloriaethau Sefydliad Farmington 2022-2023 at bob ysgol. Mae'r wybodaeth hon ar gyfer penaethiaid ac athrawon Addysg Grefyddol ysgolion uwchradd a chynradd y DU ac ar gyfer athrawon Addysg Grefyddol i blant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig.
3. Anfonwyd manylion am gyfle i gymryd rhan yn Nhîm Datblygu Dysgu Proffesiynol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Cymdeithas CYSAGau Cymru (Cwricwlwm i Gymru) i bob ysgol.
4. Ym mis Gorffennaf 2022, anfonwyd copi o Faes Llafur Cytunedig newydd Caerffili i bob ysgol er mwyn rhoi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar waith o fis Medi 2022 ymlaen.

## **DYSGU PROFFESIYNOL I ATHRAWON**

### **Mater**

Sicrhau bod athrawon yn gallu cael mynediad at ddysgu proffesiynol priodol.

### **Cam Gweithredu**

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi darparu hyfforddiant penodol ar Addysg Grefyddol i ymarferwyr ysgolion uwchradd drwy law Partner y Cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r CYSAGau. Yn ystod 2021-2022, darparodd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg Ddysgu Proffesiynol penodol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i ymarferwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Gwnaed hyn drwy ddefnyddio cyfarfodydd o benaethiaid y Dyniaethau mewn Ysgolion Rhwydwaith Dysgu a thrwy law'r Partner Cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r CYSAGau. Roedd yr hyfforddiant a ddarparwyd ar gyfer y Dyniaethau a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn canolbwyntio ar roi Cwricwlwm i Gymru 2022, y newidiadau i ddeddfwriaeth ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Amrywiaeth ar waith. Derbyniodd ymarferwyr a oedd yn bresennol hefyd ddiweddariadau ar waith CYSAGau, Cymdeithas CYSAGau Cymru a gwaith cyrff perthnasol eraill. Canolbwyntiwyd hefyd ar ddarparu modd i ymarferwyr gael rhannu eu profiadau nhw o geisio ymdopi â phandemig Covid-19, gan rannu arferion da a gan gydweithio wrth ddatblygu adnoddau ar gyfer Astudiaethau Crefyddol.

Roedd Partner Cwricwlwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog hefyd yn darparu hyfforddiant pwrpasol i ysgolion Caerffili ar y Maes Llafur Cytunedig. Roedd yn canolbwyntio ar roi gwybod i ysgolion am y newidiadau i'r Maes Llafur Cytunedig wrth i ysgolion symud ymlaen o ran rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith. Cafodd ysgolion yn y rhanbarth sesiynau Briffio ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i Benaethiaid, gyda'r nod o ddeall gofynion gorfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, o ddatblygu dealltwriaeth o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r modd y mae wedi esblygu yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru ac i ystyried rhai o'r materion cynllunio neu weithredu a all godi oherwydd y fframwaith Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg newydd mewn ysgolion.

## **ADDOLI AR Y CYD**

### **Mater**

Sicrhau bod ysgolion yn cyflawni gofynion statudol o ran addoli ar y cyd ac o ran darparu profiad gwerth chweil i ddisgyblion.



## Cam Gweithredu

1. Mae CYSAG yn monitro'r adrannau o'r adroddiadau arolygu sy'n ymwneud ag addoli ar y cyd ac â materion ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ac mae'r Awdurdod Lleol yn gwneud gwaith dilynol ar unrhyw enghraifft o beidio â chyflawni gofynion statudol drwy ofyn am eu cynllun gweithredu. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, oherwydd pandemig Covid-19, rhoddwyd stop dros dro ar y broses hon a byddwn ni'n edrych arni eto ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023.
2. Mae ysgolion wedi cael gwybod gan CYSAG am adnoddau a gwefannau priodol sy'n rhoi cymorth i addoli ar y cyd mewn ysgolion e.e. Diwrnod Cofio'r Holocaust 2022.
3. Penderfynodd CYSAG gynnal cyfarfodydd mewn ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol ac arsylwi ar addoli ar y cyd pan fydd modd er mwyn monitro bod gofynion statudol, darpariaeth ac ansawdd addoli ar y cyd yn cael eu cyflawni. Oherwydd cyfyngiadau pandemig Covid-19, nid oedd CYSAG yn gallu arsylwi ar addoli ar y cyd yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

## MATERION ERAILL:

**Nod:** Sicrhau CYSAG mwy gwybodus drwy ddarparu diweddariadau rheolaidd ar faterion lleol a chenedlaethol.

1. Mae CYSAG wedi parhau yn aelod o Gymdeithas CYSAGau Cymru ac mae'n derbyn adborth bob tymor trwy gyfarfodydd y Gymdeithas.
2. Mae'r Cynghorydd Addysg Grefyddol i CYSAG yn aelod o Banel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) ac mae'n mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd ar ran CYSAG.
3. Mae aelodau CYSAG yn derbyn hyfforddiant rheolaidd er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau deddfwriaethol ac addysgol ac er mwyn deall rôl a swyddogaeth CYSAGau.
4. Mae CYSAG yn cymryd Addysg yr Holocaust o ddifrif ac yn cynghori'r Awdurdod Lleol a'i ysgolion am hyn.
5. Mae CYSAG wedi derbyn diweddariadau rheolaidd gan eu cynghorydd proffesiynol, Mrs Hayley Jones, am ddatblygu Cwricwlwm i Gymru 2022 ac ar ei weithredu ac ar y goblygiadau i addysg grefyddol. Mae CYSAG wedi ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar y Cwricwlwm i Gymru.
6. Mae CYSAG, pan fo'n bosibl, yn cynnal cyfarfodydd mewn ysgolion yng Nghaerffili er mwyn i aelodau ymgyswngtu ag Addysg Grefyddol ac ag addoli ar y cyd mewn ysgolion. Eleni, nid oedd yn bosibl cynnal cyfarfod mewn ysgolion oherwydd y cyfyngiadau Pandemig Covid-19.

## **ADRAN 2: CYNGOR AR ADDYSG GREFYDDOL**

### **2.1 Y Maes Llafur y cytunwyd arno'n lleol**

Ym mis Mehefin 2013, cymeradwydd y Gynhadledd Sefydlog y dylid ail-fabwysiadu Maes Llafur Cytunedig presennol Caerffili ar Addysg Grefyddol a fabwysiadwyd yn 2008, gyda dealltwriaeth y byddai'r maes llafur yn cael ei adolygu pan fyddai rhagor o wybodaeth yn dod i law mewn perthynas â'r asesiad ac ag adolygiad y cwricwlwm cenedlaethol. Rhoddwyd y newyddion diweddaraf am ddatblygiadau adolygiad y Cwricwlwm Cenedlaethol ac am ddatblygiad y cwricwlwm Dyniaethau i CYSAG bob tymor. Dywedwyd wrth ysgolion y dylen nhw ddilyn y maes llafur cytunedig presennol hyd nes y clywir yn wahanol.

Ym mis Mai 2019, cytunodd y Gynhadledd Sefydlog i fabwysiadu'r Maes Llafur Cytunedig presennol eto hyd nes y rhoddir y cwricwlwm newydd ar waith yn 2022.

Ym mis Ionawr 2022, gwnaeth Llywodraeth Cymru ryddhau canllawiau ar fframwaith y Cwricwlwm newydd i Cymru, a oedd yn caniatáu i awdurdodau lleol ledled Cymru a'u CYSAGau ddechrau paratoi at fabwysiadu Maes Llafur Cytunedig newydd. Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru yn gwneud darpariaeth i awdurdodau lleol fabwysiadu neu addasu'r canllawiau hyn fel eu Maes Llafur Cytunedig.

Yng nghyfarfod y Gynhadledd Sefydlog a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2022, cytunodd Aelodau Sefydlog y Gynhadledd y dylid mabwysiadu Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel sail i'r Maes Llafur Cytunedig newydd ar gyfer yr awdurdod lleol, yn amodol ar gynnwys dogfen ragair ategol a fydd yn berthnasol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, fel yr awdurdod lleol, wrth ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Cytunwyd hefyd y bydd Gweithgor yn cael ei sefydlu ar ôl y cyfarfod er mwyn i Aelodau a Swyddogion gyfrannu at y rhagair a rhoi gwedd derfynol ar y cynnwys, cyn cyflwyno'r Maes Llafur Cytunedig hwn yn derfynol i gyfarfod arall o'r Gynhadledd Sefydlog iddo gael ei gymeradwyo.

Cynhaliwyd Gweithgorau'r Gynhadledd Sefydlog, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o CYSAG Caerffili, ym mis Mawrth 2022. Bu cynrychiolwyr y Gweithgor yn trafod ac yn dadansoddi canllawiau Llywodraeth Cymru yn fanwl ar draws y ddwy sesiwn a gwnaethon nhw ddrafftio a mireinio dogfen Maes Llafur Cytunedig ategol sy'n berthnasol i Gaerffili, fel yr awdurdod lleol, ac sy'n nodi'r prif bwyntiau sy'n bwysig yng nghanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Llywodraeth Cymru er mwyn i athrawon ac ymarferwyr roi sylw iddyn nhw wrth baratoi eu cwricwlwm ac wrth gynllunio gwersi. Roedd dogfen ddrafft y Maes Llafur Cytunedig hefyd yn rhoi canllawiau i athrawon ar feysydd allweddol megis addoli ar y cyd a dileu'r hawl i dynnu'n ôl yng Nghwricwlwm Cymru.

Ar ôl ei chwblhau, anfonwyd dogfen Maes Llafur Cytunedig drafft Caerffili i bob Aelod o CYSAG er mwyn ymgynghori â nhw a rhoi cyfle iddyn nhw gyflwyno sylwadau neu roi barn derfynol y dylid eu cynnwys yn nogfen Maes Llafur Cytunedig Caerffili cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Gynhadledd Sefydlog.

Cyflwynwyd drafft terfynol Maes Llafur Cytunedig Caerffili ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, yn seiliedig ar Ganllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y Cwricwlwm i Gymru, i gyfarfod y Gynhadledd Sefydlog ar 28 Mawrth, 2022. Cafodd ei gadarnhau a'i gymeradwyo fel Maes Llafur Cytunedig Caerffili ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ac argymhellwyd i'r awdurdod lleol ei fabwysiadu a'i roi ar waith o fis Medi 2022 ymlaen.

Yn dilyn hynny, mabwysiadodd yr awdurdod lleol y Maes Llafur Cytunedig newydd ym mis Mehefin 2022, ac anfonwyd y ddogfen at bob ysgol ym mis Gorffennaf 2022 cyn rhoi'r Cwricwlwm newydd i Gymru ar waith ym mis Medi 2022.

## **2.2 Safonau mewn Addysg Grefyddol**

Mae CYSAG wedi mabwysiadu sawl strategaeth ar gyfer monitro safonau sy'n cael eu cyflawni mewn addysg grefyddol mewn ysgolion yn yr Awdurdod. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys y canlynol:

### **Adroddiadau Arolygu Ysgolion**

Arfer CYSAG yw edrych yn ofalus ar adrannau perthnasol o adroddiadau arolygu ysgolion Estyn am ysgolion ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ac os daw unrhyw faterion ynghylch addoli ar y cyd i'r amlwg, megis peidio â chyflawni gofynion statudol, yna bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud gwaith dilynol ar hyn gan ofyn am eu cynllun gweithredu. Yn ystod 2021-2022, rhoddwyd stop dros dro ar y broses hon a byddwn ni'n edrych arni eto ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023.

Mae CYSAG wedi penderfynu parhau i ddefnyddio adroddiadau arolygu i fonitro bod gofynion statudol yn cael eu cyflawni ac i ddefnyddio pa bynnag sylwadau sy'n berthnasol.

### **Canlyniadau Arholiad 2021**

Arfer CYSAG oedd dadansoddi canlyniadau arholiadau dros gyfnod o dair blynedd ac mae'n nodi tueddiadau o ran meincnodi perfformiad yn ôl holl ddata Cymru. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rhoddwyd stop dros dro ar y broses hon a byddwn ni'n edrych arni eto ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023.

## **2.3 Dulliau Addysgu, Deunyddiau Addysgu a Hyfforddiant Athrawon**

### **Dysgu Proffesiynol**

Mae Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru yn hysbysebu eu cyrsiau nhw drwy CPD ar-lein. Penododd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg Mrs Hayley Jones yn Bartner Cwricwlwm llawn amser (Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg) o fis Tachwedd 2021. Fe wnaeth Mrs Hayley Jones gynnig cymorth pwrpasol i Addysg Grefyddol o fewn y rhanbarth yn ystod 2021-2022.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi darparu hyfforddiant sy'n benodol i Addysg Grefyddol i ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd drwy'r Partner Cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r CYSAGau. Yn ystod 2021-2022, darparodd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg Ddysgu Proffesiynol penodol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i ymarferwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Gwnaed hyn drwy ddefnyddio cyfarfodydd o benaethiaid y Dyniaethau mewn Ysgolion Rhwydwaith Dysgu a thrwy law y Partner Cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a CYSAGau. Roedd yr hyfforddiant a ddarparwyd ar gyfer y Dyniaethau a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn canolbwyntio ar roi Cwricwlwm i Gymru 2022, y newidiadau i ddeddfwriaeth ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Amrywiaeth ar waith. Derbyniodd ymarferwyr a oedd yn bresennol hefyd ddiweddariadau ar waith CYSAGau, Cymdeithas CYSAGau Cymru a gwaith cyrff perthnasol eraill. Canolbwyntiwyd hefyd ar ddarparu modd i ymarferwyr gael rhannu eu profiadau nhw o geisio ymdopi â phandemig Covid-19, gan rannu arferion da a gan gydweithio wrth ddatblygu adnoddau ar gyfer Astudiaethau Crefyddol.

Roedd Partner Cwricwlwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog hefyd yn darparu hyfforddiant pwrpasol i ysgolion Caerffili ar y Maes Llafur Cytunedig. Roedd yn

canolbwyntio ar roi gwybod i ysgolion am y newidiadau i'r Maes Llafur Cytunedig wrth i ysgolion symud ymlaen o ran rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith.

Cafodd ysgolion yn y rhanbarth sesiynau Briffio ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i Benaethiaid, gyda'r nod o ddeall gofynion gorfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, o ddatblygu dealltwriaeth o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r modd y mae wedi esblygu yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru ac i ystyried rhai o'r materion cynllunio neu weithredu a all godi oherwydd y fframwaith Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg newydd mewn ysgolion.

## **Ysgolion Rhwydwaith Dysgu ar gyfer Addysg Grefyddol**

Mae gwaith yr Ysgolion Rhwydwaith Dysgu (LNS) ym mhob consortiwm wedi parhau trwy 2021-2022 ac mae'r canllawiau a'r cymorth sy'n deillio o'r LNS, ynghyd â'r gwaith a wnaed rhwng cydweithwyr yn y CYSAGau a PYCAG, wedi cael ei raeadru i athrawon Addysg Grefyddol.

## **Deunyddiau Addysgu**

Mae ystod o ddeunyddiau addysgu wedi cael eu dosbarthu i ysgolion ar ran CYSAG fel a ganlyn:

## **Ysgoloriaethau Farmington 2022-23**

Rhoddodd CYSAG wybodaeth i ysgolion Caerffili am Ysgoloriaethau Farmington 2022 - 2023 sydd am ddim i athrawon addysg grefyddol yn y DU. Gall ymarferwyr astudio unrhyw agwedd ar addysg grefyddol y maen nhw'n dymuno ond ffafrir ymgeiswyr y gellir gweld bod eu gwaith o werth uniongyrchol i addysgu Addysg Grefyddol mewn ysgolion. Bydd yr Ysgoloriaeth yn talu am gost addysgu ac am deithio hanfodol lleol, a thrwy drafodaeth gyda'r ysgol, cyflog athro newydd hyd at bwynt 6 ar y brif raddfa gyflog.

Mae'n bosibl cymryd Ysgoloriaethau ysgol/cartref ar ffurf rhyddhau am ddiwrnod, er enghraifft am un diwrnod yr wythnos dros dymor neu dros y flwyddyn neu am gyfnodau parhaus hyd at uchafswm o 30 diwrnod.

Mae'n bosibl cymryd Ysgoloriaethau a leolir mewn Prifysgol ar ffurf rhyddhau am ddiwrnod hyd at 30 o ddiwrnodau, gyda'r Ysgoloriaethau i'w cymryd o fewn tymhorau'r brifysgol.

Ceir mwy o wybodaeth am ysgolion yn [www.farmington.ac.uk](http://www.farmington.ac.uk) neu anfonwch e-bost at: [farmington@hmc.ox.ac.uk](mailto:farmington@hmc.ox.ac.uk)

## **Adnoddau Diwrnod Cofio'r Holocost 2022**

Cafodd pob ysgol wybod am Ddiwrnod Cofio'r Holocost 2022. Dyma ddigwyddiad blynyddol a gynhelir ar 27 Ionawr bob blwyddyn ac mae'n amser i gofio'r miliynau o bobl a lofruddiwyd yn ystod yr Holocost, o dan Erledigaeth y Natsïaid ac yn yr hil-laddiadau a ddilynodd yng Nghambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur.

Cafodd ysgolion Caerffili wybod mai thema 2022 oedd "Un Diwrnod". Y gobaith oedd y byddai Un Diwrnod yn y dyfodol heb hil-laddiad, a rhoddwyd enghreifftiau o sut i ddehongli ac ystyried y thema, gan gynnwys canolbwyntio ar Un Diwrnod mewn hanes, Un Diwrnod pan newidiodd bywyd, Un Diwrnod ar y tro, neu Un Diwrnod yn y dyfodol, er mwyn i gymunedau ddod at ei gilydd i ddysgu trwy'r Holocost a'r hil-laddiadau er mwyn dyfodol gwell.

Cafodd ysgolion wybod gan CYSAG fod rhagor o wybodaeth am y thema ac adnoddau addysgol am ddim am yr Holocaust i'w gweld ar eu gwefan [www.hmd.org.uk](http://www.hmd.org.uk), ymhlith y rhain roedd cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, astudiaethau achos, deunydd cydaddoli/gwasanaeth ysgol a thafleuni gwaith. Mae'r Holocaust Education Trust hefyd yn cynnig adnoddau a gwybodaeth ar thema'r Holocaust ac mae ar gael ar-lein yn [www.het.org.uk](http://www.het.org.uk).

### **Cylchlythyr Dyniaethau'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg**

Caiff cylchlythyr Dyniaethau'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg ei anfon ar e-bost i bob ysgol bob tymor. Mae'r cylchlythyr yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am addysgu a chyflwyno Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ynghyd â newyddion diweddaraf am waith a swyddogaeth CYSAG. Caiff y cylchlythyr ei gynnwys yng nghylchlythyr tymhorol CYSAG er mwyn rhannu gwybodaeth.

## **ADRAN 3: CYNGOR AR ADDOLI AR Y CYD**

### **3.1 Adroddiadau Arolygu Ysgolion**

Arfer CYSAG yw edrych yn ofalus ar adrannau perthnasol o adroddiadau arolygu ysgolion Estyn am ysgolion ym Mwrdeistref Xirol Caerffili ac os daw unrhyw faterion ynghylch addoli ar y cyd i'r amlwg, megis peidio â chyflawni gofynion statudol, yna bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud gwaith dilynol ar hyn gan ofyn am eu cynllun gweithredu. Yn ystod 2021-2022, rhoddwyd stop dros dro ar y broses hon a byddwn ni'n edrych arni eto ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023.

Mae CYSAG wedi penderfynu parhau i ddefnyddio adroddiadau arolygu i fonitro bod gofynion statudol yn cael eu cyflawni ac i ddefnyddio pa bynnag sylwadau sy'n berthnasol.

### **3.2 Ceisiadau am Benderfyniadau**

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau gan ysgolion am wneud penderfyniadau i ddileu'r gofynion bod addoli ar y cyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf o gymeriad sydd yn fras yn Gristnogol.

### **3.3 Ymweliadau ag Ysgolion**

Mae CYSAG yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd sy'n cael eu rhoi i aelodau arsylwi gweithredoedd addoli ar y cyd mewn ysgolion. Ni chafodd aelodau'r cyfle i gynnal cyfarfod CYSAG mewn ysgol nac i arsylwi ar gydaddoliad yn ystod 2021-2022 oherwydd cyfyngiadau ynghylch Pandemig Covid-19.

## **ADRAN 4: MATERION ERAILL**

### **4.1 CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU**

Mae CYSAG wedi parhau i fod yn aelod o Gymdeithas CYSAGau Cymru ac mae cynrychiolwyr o Gaerffili wedi mynychu ei chyfarfodydd. Yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22, mae materion a ystyriwyd yng nghyfarfodydd CCYSAGauC wedi cael eu hadrodd yn llawn yn ôl i CYSAG a chynhaliwyd trafodaethau llawn. Mae CYSAG yn croesawu gwaith rhagweithiol CCYSAGauC trwy ymgymryd â materion sydd â goblygiadau i Addysg Grefyddol a thrwy sicrhau bod gan CYSAGau sy'n aelod wybodaeth llawn. Mae CYSAG Caerffili wedi cael adborth rheolaidd gan Mrs Hayley Jones a'r rheiny sy'n cynrychioli CYSAG yng nghyfarfodydd CCYSAGauC.

### **4.2 ADDYSG AM YR HOLOCOST**

#### **Adnoddau Diwrnod Cofio'r Holocost 2022**

Cynhelir Diwrnod Cofio'r Holocost ar 27 Ionawr bob blwyddyn ac mae'n amser i gofio'r miliynau o bobl a lofruddiwyd yn ystod yr Holocost, o dan Erledigaeth y Natsïaid ac yn yr hil-laddiadau a ddilynodd yng Nghambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur. Thema 2022 oedd "Un Diwrnod", y gobaith oedd y byddai Un Diwrnod yn y dyfodol heb hil-laddiad, a rhoddwyd enghreifftiau o sut i ddehongli ac ystyried y thema, gan gynnwys canolbwyntio ar Un Diwrnod mewn hanes, Un Diwrnod pan newidiodd bywyd, Un Diwrnod ar y tro, neu Un Diwrnod yn y dyfodol, er mwyn i gymunedau ddod at ei gilydd i ddysgu trwy'r Holocost a'r hil-laddiadau er mwyn dyfodol gwell.

Cafodd gwybodaeth am thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2022 a'r adnoddau sydd ar gael eu hanfon at bob ysgol ym mis Medi 2021.

Yn ei gyfarfod yn Nhymor y Gwanwyn ym mis Mawrth 2022, rhoddwyd diweddariad i CYSAG am y gweithgareddau a gynhaliwyd ar draws y Fwrdeistref Sirol i goffáu Diwrnod Cofio'r Holocost, cafwyd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol gan Gyngor Caerffili i godi ymwybyddiaeth o Ddiwrnod Cofio'r Holocost ac o thema "Un Diwrnod", a dangoswyd enghreifftiau o weithgareddau ysgol i nodi'r diwrnod hwn. Roedd y rhain yn cynnwys enghreifftiau o lythyrau a ysgrifennwyd gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Coed Duon, a edrychodd ar eu profiadau eu hunain yn ystod y pandemig ac roedden nhw'n gwneud cysylltiad rhwng y rhain â dyfyniad o ddyddiadur Anne Frank oedd yn disgrifio cyfnod clo, cafwyd sawl enghraifft dda o empathi a thosturi ymhlith y disgyblion.

### **4.3 CWRICWLWM I GYMRU 2022**

Mae CYSAG wedi derbyn diweddariadau bob tymor am y datblygiadau o ran Addysg Grefyddol a'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Derbyniodd CYSAG, er gwybodaeth, gopi dan embargo o ganllawiau Cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i Gymru ym mis Rhagfyr 2021 ac roedd yn gallu dechrau paratoi ar gyfer y Maes Llafur Cytunedig newydd (fel Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig) yn gynnar yn 2022 ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r canllawiau.

### **4.4 YMGYNGHORIADAU YSGOLION YR 21AIN GANRIF**

Anfonwyd manylion cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili mewn perthynas ag Ysgol Iau Llancaeath ac Ysgol Fabanod Llanfabon, Ysgol Gynradd Plasyfelin, ac Uned Atgyfeirio Disgyblion ar hen Safle Ysgol Gynradd

Pontllan-fraith, i CYSAG Caerffili yn ystod 2021-22 fel ymgynghoreion statudol, a gwahoddiwyd Aelodau i ymateb fel unigolion.

#### **4.5 HYFFORDDI AELODAU CYSAG**

Mae aelodau CYSAG yn cael hyfforddiant ar Rolau a Chyfrifoldebau CYSAG ar ddechrau pob blwyddyn academaidd a chaiff hyn ei drefnu yn ystod 2022-23.

#### **4.6 AELODAETH CYSAG**

Mae'r rhestr aelodaeth bresennol sy'n dangos y sefyllfa o fis Awst 2022 ynghlwm yn Atodiad 1.

Mae'r swyddi canlynol yn wag ar hyn o bryd:

**Lleoedd cyfetholedig x 2** – Mae CYSAG wedi cytuno i gyfethol dau gynrychiolydd iuenctid i'r Pwyllgor ac mae gwaith yn parhau yn y maes hwn.

**Pwyllgor A** – Mae gwaith yn mynd rhagddo i lenwi'r un lle gwag sy'n weddill i gynrychiolydd ffydd nad yw'n Gristnogol. Rhoddodd cynrychiolwyr hirhoedlog yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig wybod i CYSAG eu bod nhw'n ymddiswyddo o'u rolau yn ystod Gwanwyn-Haf 2022, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddod o hyd i aelodau newydd i lenwi'r swyddi gwag hyn.

**Pwyllgor B** – Mae dwy swydd yn parhau'n wag ar gyfer Cynrychiolydd NEU a Chynrychiolydd ASCL, ac mae CYSAG wrthi'n ysgrifennu at ysgolion i ofyn am fynegiannau o ddiddordeb i lenwi'r lleoedd hyn.

#### **4.7 CYMORTH PROFFESIYNOL I CYSAG CAERFFILI**

Mae Mrs Victoria Bodenham a Mr Paul Warren yn rhoi cymorth i CYSAG trwy eu rolau fel Swyddogion Addysg yr Awdurdod Lleol.

Dechreuodd Mrs Hayley Jones, Partner Cwricwlwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, yn ei swydd ym mis Tachwedd 2021 ac mae'n darparu cymorth proffesiynol i CYSAG Caerffili a Dysgu Proffesiynol yn rhanbarth y Cyngor Cyflawni Addysg.

Parhaodd Miss Rebecca Barrett i weithredu fel Clerc i CYSAG, ac mae'r Aelodau'n ddiolchgar iawn i waith Miss Barrett, sy'n hanfodol i weithrediad effeithiol ac effeithlon CYSAG Caerffili.



## **ATODIAD 1: AELODAETH CYSAG CAERFFILI HYDREF 2021-HAF 2022**

### **CYNYRCHIOLWYR FFYDD A CHRED - PWYLLGOR A**

Mrs Janet Jones (Yr Eglwys yng Nghymru) (Is-gadeirydd CYSAG)  
Uwch-gapten Paula Hubbard (Byddin yr Iachawdwriaeth)  
Mr Michael Gray (Yr Eglwys Fethodistaidd)  
Mr Ken Chamberlain (Dyneiddwyr Cymru)

Swydd wag – Cynrychiolydd yr Eglwys Rhydd – ymddiswyddodd Mrs E. Hawthorn ar 23.06.22

Swydd wag – Yr Eglwys Gatholig – ymddiswyddodd Mr M. Western ar 03.03.22

Swydd wag – grŵp ffydd/crefydd nad yw'n Gristnogol – cymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Hydref 2018

### **CYMDEITHASAU ATHRAWON - PWYLLGOR B**

#### **Ysgolion Cynradd**

Mrs Tara Lloyd (NAHT)  
Ms Meinir Jones (UCAC)

#### **Ysgolion Uwchradd**

Miss Helen Bartley (NEU)  
Ms Katherine McCullough (NASUWT)  
Mrs Claire McLaughlan (NASUWT)

Swydd wag – Cynrychiolydd NEU

Swydd wag – Cynrychiolydd ASCL

### **YR AWDURDOD LLEOL - PWYLLGOR C**

Cynghorydd Mrs E.M. Aldworth  
Cynghorydd M. Chacon-Dawson  
Cynghorydd Mrs B. Miles  
Cynghorydd Mrs T. Parry  
Cynghorydd A. Whitcombe  
Cynghorydd J. Taylor (Cadeirydd CYSAG)

### **AELODAU CYFETHLEDIG**

Dwy swydd wag – ar gadw ar gyfer cynrychiolwyr ieuenctid ar CYSAG

### **SWYDDOGION**

Ms Hayley Jones (Partner Cwricwlwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg – Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg)  
Mrs Victoria Bodenham (Swyddog Gwella Ysgolion)  
Mr Paul Warren (Arweinydd Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer Gwella Ysgolion)

### **CLERC I CYSAG**

Miss Rebecca Barrett (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) - tan 31.10.22

Mrs Julie Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) – o 01.11.22

E-bost [LloydJ4@caerffili.gov.uk](mailto:LloydJ4@caerffili.gov.uk)

## **ATODIAD 2: AMSERLEN AC AGENDA CYFARFODYDD**

### **Cyfarfod CYSAG Caerffili 25 Tachwedd 2021 am 2pm Microsoft Teams**

- Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd i CYSAG Caerffili.
- Cael ymddiheuriadau am absenoldeb.
- Datganiadau Buddiant.
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2020 a materion yn codi.
- Cael a nodi Diweddariad ar Aelodaeth CYSAG Caerffili.
- Cael ac ystyried Adroddiad Blynyddol CYSAG 2020-2021.
- Cael a nodi Ymateb CYSAG Caerffili i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ganllawiau Cwricwlwm i Gymru, ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (RVE).
- Cael a nodi diweddariad ar lafar ar ddiweddariadau'r Cwricwlwm - Asesiadau CBAC 2022 / Canllawiau ar ddylunio a chyflwyno Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (RVE) gorfodol.
- Cael a nodi diweddariad ar lafar ar y Cwricwlwm i Gymru.
- Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am Ddiwrnod Cofio'r Holocaust 2022.
- Nodi dyddiad cyfarfodydd CYSAG yn y dyfodol yn ystod 2022.
- Cael a nodi'r cofnodion o Gyfarfod yr Hydref a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol rithiwr Cymdeithas CYSAGau Cymru ar 7 Hydref 2020.
- Cael a nodi cofnodion Cyfarfod Haf rhithwir Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd gan Gyngor Caerffili ar 23 Mawrth 2021.
- Cael a nodi cofnodion Cyfarfod Haf rhithwir Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd gan Gyngor Powys ar 16 Mehefin 2021.
- Cael a nodi adborth a gafwyd o Gyfarfod Hydref rhithwir Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd gan Gyngor Torfaen ar 23 Tachwedd 2021.
- Nodi dyddiadau cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn y dyfodol a chadarnhau cynrychiolaeth.

### **Cyfarfod CYSAG Caerffili 28 Mawrth 2022 am 3pm Microsoft Teams**

- Cael ymddiheuriadau am absenoldeb.
- Datganiadau Buddiant.
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021 a materion yn codi.
- Cael diweddariad gan y Cynghorydd Addysg Grefyddol.
- Cael y newyddion diweddaraf am yr ohebiaeth a gafodd CYSAG Caerffili a/neu a gafodd ei chylchredeg ar ran CYSAG Caerffili ers y cyfarfod diwethaf.
- Nodi dyddiad cyfarfodydd CYSAG yn y dyfodol yn ystod 2022.
- Cael a nodi adborth a gafwyd o Gyfarfod Hydref rhithwir Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd gan Gyngor Torfaen ar 23 Tachwedd 2021.
- Trafod enwebiadau i Bwyllgor Gweithredol Cymdeithas CYSAGau Cymru ar gyfer 2022.
- Gofyn am sylwadau CYSAG Caerffili ar y newidiadau arfaethedig i gyfansoddiad Cymdeithas CYSAGau Cymru.
- Nodi dyddiadau cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn y dyfodol a chadarnhau cynrychiolaeth.

**Cyfarfod CYSAG Caerffili**  
**28 Mawrth 2022 am 3pm**  
**Microsoft Teams**

- Cael ymddiheuriadau am absenoldeb.
- Datganiadau Buddiant.
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2022 a materion yn codi.
- Cofnodion Cynhadledd Sefydlog (Maes Llafur Cytunedig) CYSAG Caerffili a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2022 a materion yn codi.
- Cael diweddariad gan y Cynghorydd Addysg Grefyddol
- Ystyried a chymeradwyo diwygiadau arfaethedig i'r Cylch Gorchwyl ar gyfer cael diweddariad ar yr ohebiaeth a roddwyd gan CYSAG Caerffili a/neu a gylchredwyd ar ran CYSAG Caerffili ers y cyfarfod diwethaf.
- Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am amserlen CYSAG o gyfarfodydd ar gyfer 2022/23.
- Cael a nodi adborth gan Gyfarfod Gwanwyn rhithwir Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd gan Gastell-nedd Port Talbot ar 6 Ebrill 2022.
- Cael a nodi adborth gan Gyfarfod Haf rhithwir Cymdeithas CYSAGau Cymru a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 29 Mehefin 2022.
- Nodi canlyniad y pleidleisio ar gyfer Is-gadeirydd Cymdeithas CYSAGau Cymru ac Etholiadau'r Pwyllgor Gweithredol ar gyfer 2022.
- Nodi dyddiadau cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn y dyfodol a chadarnhau cynrychiolaeth.

### **ATODIAD 3: CYLCHREDIAD YR ADRODDIAD**

***Bydd copïau yn cael eu hanfon yn electronig at y cyrff perthnasol. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol ac ar wefan Cymdeithas CYSAGau Cymru er mwyn caniatáu i bartïon sydd â diddordeb ei lawrlwytho.***

Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg Cyngor Caerffili

Holl aelodau CYSAG Caerffili

Cyfarwyddwr Rhanbarthol Gwasanaeth Cyngori Addysg De-ddwyrain Cymru (EAS)

Swyddog Addysg Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Addysg Grefyddol

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Llywodraeth Cymru

Penaethiaid a Chyrff Llywodraethol holl ysgolion y Fwrdeistref Sirol

Penaethiaid a Chyrff Llywodraethol pob coleg trydyddol yn y Fwrdeistref Sirol

Pob CYSAG yng Nghymru

Cymdeithas CYSAGau Cymru (CCYSAGauC)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

ESTYN